

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	21 Ebrill 2016
<b>TEITL:</b>	CWYNION IAITH
<b>AWDUR:</b>	GWENLLIAN MAIR WILLIAMS SWYDDOG DATBLYGU IAITH
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR.

## CWYNION FFURFIOL YN ERBYN Y CYNLLUN IAITH

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
<b>Ionawr 2016</b>	<i>Cyfeiriwyd at yr uned er gwybodaeth:</i> cwyn am fod yr Adran Budd-daliadau wedi anfon llythyr uniaith Saesneg at drigolyn.	Ymchwiliodd rheolwr y gwasanaeth i'r mater a chanfod mai camgymeriad oedd hyn ar ran un o'r swyddogion. Anfonodd ymddiheuriad i'r achwynydd, gan gadarnhau bod cyfarwyddiadau clir yn cael eu rhoi i swyddogion am sut i ymateb i ddewis iaith, ac yn rhoi addewid i anfon ffurflenni uniaith Gymraeg yn y dyfodol.

## CWYNION ANFFURFIOL / YMHOLIADAU

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
<b>Chwefror 2016</b>	<p>Derbyniwyd ymholiad am natur y cytundebau gwasanaeth gyda dau gaffi sydd yn cael eu rhedeg mewn adeiladau sydd yn eiddo i'r Cyngor.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Caffi Seibiant@Storiel : roedd y caffi wedi bod yn postio yn uniaith Saesneg ar eu tudalen facebook.</li> <li>Caffi Canolfan Hamdden Glaslyn : Staff di-Gymraeg</li> </ol>	<p>Edrychwyd ar y cytundebau presennol gyda'r ddau gaffi. Cadarnhawyd bod y ddau gytundeb yn gofyn am staff sydd yn siarad Cymraeg ac iddynt arddangos arwyddion dwyieithog. Nid oedd y cytundeb yn gosod canllaw ar gyfer iaith marchnata.</p> <p>Roedd ymholiad hefyd wedi ei dderbyn gan aelodau Menter Iaith Bangor am y caffi hwn, a phenderfynwyd delio gyda'r mater mewn ffordd eithaf anffurfiol. Cafwyd sgwrs gyda'r perchennog, a chael gwybod ei bod yn ymwybodol o'r gwyn am y dudalen facebook. Cadarnhawyd bod staff yr Oriol yn rhoi help iddi allu postio a chynhyrchu'r bwydlenni ac arwyddion yn ddwyieithog. Rhannwyd adnoddau iaith gwaith ar gyfer staff y caffi, ac aethpwyd yno i gynnal sesiwn ymwybyddiaeth iaith gyda 5 o'r staff. Bydd staff yr oriel a Menter Iaith Bangor yn gallu cynnig cefnogaeth yn y dyfodol.</p> <p>Anfonwyd llythyr at berchnogion y les yn eu hatgoffa o'r amodau yn y cytundeb gyda'r Cyngor. Ni chafwyd ymateb hyd yma, ond bydd angen sgwrs bellach gyda phennaeth y gwasanaeth Hamdden er mwyn cytuno ar sut i ddelio gyda'r mater os na fydd newid.</p>
<b>Chwefror 2016</b>	Ymholiad am enw Saesneg yn	Wedi ymchwilio i'r mater, nid yw'n glir pa bryd y

	<p>cael ei ddefnyddio ar fap yr Arolwg Ordnans, sef Black Rock Sands.</p> <p>Roedd yr ymholydd wedi cysylltu gyda AO i holi pan fod enw Saesneg yn cael ei ddefnyddio a hwythau wedi ymateb mai dyna oedd yr enw "lleol" oedd wedi ei gymeradwyo gan Gyngor Gwynedd.</p>	<p>cytunwyd i ddefnyddio'r enw Saesneg.</p> <p>Yn dilyn yr ymholiad gwreiddiol i'r AO ym mis Ionawr 2016, bu i un o aelodau eu tîm ymchwil data gysylltu â Chyngor Gwynedd a chael cadarnhad mai'r fersiwn Saesneg o'r enw oedd yn cael ei ddefnyddio yn gyffredin yn lleol.</p> <p>Nid oedd AO yn gallu cadarnhau pwy oedd y cyswllt yn y Cyngor, ond mae'n ymddangos eu bod wedi cymryd y cadarnhad o'r enw Saesneg fel caniatâd i'w ddefnyddio yn hytrach nag enw Cymraeg.</p>
--	--	---